

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd y **Cyfarfod Blynnyddol** ar yr 12fed o Fai 2025 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Penybont.

Cynghorwyr yn bresennol: Andrew Jones(Cadeirydd), Alyson Harries, John Phillips, Dyfed Davies, Ambrose Lewis, Arwyn Jones, Eirian Howells, Ann Sillars, Linda Davies, Derrick Harries & Cynghorydd Sir Jean Lewis.

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

Sylwadau'r Cadeirydd:

Croesawodd Andrew Jones pawb i'r cyfarfod gan ddiolch iddynt am eu gwaith called dros y flwyddyn olaf. Diolchwyd y Cynghorydd Sir Jean Lewis am ei gwaith cydwybodol ac am ei ymgysylltiad drwy'r plwyf cyfan. Nodwyd diolch hefyd i'r clerc am ei gwaith dros y flwyddyn.

1. **Apwyntio Cadeirydd:** Cynigwyd yn unfrydol for Mrs Alyson Harries yn ymgymryd a'r swydd am y flwyddyn i ddod. Cymherodd Alyson Harries y gadair â chymrodd y cyfle i ddiolch Andrew Jones am ei waith dros y flwyddyn olaf a gobeithio y byddai'r gwaith da yn cario ymlaen.
2. **Apwyntio Is-Gadeirydd:** Cynigwyd yn unfrydol Mrs Ann Sillars fod yn Is-Gadeirydd ac fe'i dderbyniodd.
3. **Ymddiheuriadau absenoldeb.**
Dim – pawb yn bresennol
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod blynnyddol o'r 13eg o Fai 2024 wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod, fe'i darllenwyd , cytunwyd a'i llofnodwyd fel cofnod cywir.

5. Llofnodwyr Cyfrif Banc – Cadarnhaodd y clerc mae y llofnodwyr presennol oedd Mr Ambrose Lewis, Mrs Alyson Harries, Mr Andrew Jones ac y clerc. Roedd angen dau berson i lofnodi. Cytunwyd i gadw yr un llofnodwyr. Awdurdodwyd y clerc i wneud trosglwyddiadau uniongyrchol ar y system bancio ar-lein am daliadau a oedd wedi cael eu hawdurdodi yn y cyfarfodydd. Byddai cyflog y clerc yn cael ei dalu drwy drosglwyddiad uniongyrchol yn fisol.

6. Prisiau asedau – Cafodd gwerth cadwyn y cadeirydd ei ail-gymeradwyo yn £4000

7. Derbyn y cyfrifon – Trafodwyd y cyfrifon roedd wedi cael eu archwilio ac fe'u cafwyd yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd ac y Clerc. Cytunwyd i lofnodi'r Ffuflen Archwilio Blynnyddol ar sail y cyfrifon a dderbyniwyd.

8. Asesiad Risg 2025-2026 – Adolygiwyd yr asesiad ac fe'i dderbyniwyd.

9. Rheolau Cyllid y Cyngor – Cytunwyd i dderbyn y Rheolau Newydd wedi eu-adolygu.

10. Rheolau Sefydlog y Cyngor – Adolygwyd a derbyniwyd y Rheolau Sefydlog

11. Cofnod diddordeb y Cynghorwyr – Roddodd y clerc wybod i'r Cynghorwyr byddai angen iddynt gwblhau cofnod newydd os oedd unrhyw newidiadau ers y flwyddyn flaenorol a'u dychwelyd i'r clerc. Roedd ffurflenu ar gael wrth y Clerc.

12. Ffurflen Optio Allan am y Lwfans Cynghorwyr - Dosbarthodd y clerc y ffurflennu am optio-allan o dderbyn y lwfans o £150 am y flwyddyn 2025-2026ac roeddent l'w cwblhau a'u dychwelyd i'r clerc os nad oeddent am ei dderbyn.

13. Adroddiad Blynyddol arfaethedig – Dosbarthwyd copïau o'r Adroddiad Blynyddol arfaethedig am 2024-25. Fe'i drafodwyd a'i dderbyn i'w gyhoeddu.

14. Cynllun Hyfforddiant – Derbyniwyd y Cynllun Hyfforddiant am 2025-26.

15. Cynllun Bioamrywiaeth 2025-26 – Trafodwyd y cynllun drafft a'i dderbyn.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd Alyson Harries i bawb am fynychu ac fe derfynwyd y cyfarfod am 8.40yh.